**LC251**

# Cynulliad Cenedlaethol Cymru
# The National Assembly for Wales

**ADRODDIAD GAN Y PWYLLGOR DEDDFAU** **LEGISLATION COMMITTEE REPORT**

**Gorchymyn Deddf Gofalwyr a Phlant Anabl 2000 (Cychwyn Rhif 1) (Cymru) 2001**

**Y Cefndir**

Mae'r Gorchymyn hwn yn dod â darpariaethau penodol yn Neddf Gofalwyr a Phlant Anabl 2000 i rym ar 1 Gorffennaf 2001.

Cafodd darpariaeth debyg ei gwneud ar gyfer Lloegr ar 14 Chwefror 2001 gyda dyddiad cychwyn ar 1 Ebrill 2001.

**Rheol Sefydlog 11.5**

Mae'r penawdau i'r Atodlenni'n anghyflawn gan nad yw'r dyddiad cychwyn o 1 Gorffennaf 2001 wedi'i fewnosod.

Ystyrir y gellid gwneud y cywiriad angenrheidiol naill ai drwy Femorandwm Cywiriadau neu pan fydd y Gorchymyn yn cael ei argraffu.

Ar yr amod bod camau priodol yn cael eu cymryd i gywiro'r uchod, nid oes dim pwyntiau wedi'u nodi fel materion y mae angen i'r Pwyllgor wahodd y Cynulliad yn ffurfiol i roi sylw arbennig iddynt, o dan RhS 11.5.

**Sylwadau Cyffredinol**

Nid yw adran 12(2) o Ddeddf Gofalwyr a Phlant Anabl 2000 yn nodi gan bwy y caiff gorchymyn ei wneud. Mae angen cyfeirio at adran 12(3) er mwyn darganfod bod swyddogaeth gwneud y gorchymyn wedi'i breinio yn y Cynulliad mewn perthynas â Chymru. Gan hynny, yn unol â'r cyfarwyddiadau yn Ymarfer Offerynnau Statudol, dylai is-

adran (3) naill ai fod wedi'i chynnwys wrth enwi'r pwerau yn y rhaglith neu fod wedi'i nodi yn nhroednodyn (a).

Glyn Davies AC
**Cadeirydd Dros Dro y Pwyllgor Deddfau**

15 Mai 2001